



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ATODIAD i

Ddogfen Fframwaith

Awdurdod Cyllid Cymru

Cytundeb rhwng
Llywodraeth Cymru ac
Awdurdod Cyllid Cymru

Mawrth 2018

Cyflwyniad

1. Dyma Atodiad i Ddogfen Fframwaith Awdurdod Cyllid Cymru sy'n amlinellu telerau'r cytundeb rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi perthynas adeiladol a chryf rhyngddynt. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn cyfeirio at ddogfennau llywodraethiant allweddol eraill rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru, ac mae pob un o'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Atodiad hwn.
2. Cyhoeddwyd y dogfennau llywodraethiant yn bennaf gan Lywodraeth Cymru i Awdurdod Cyllid Cymru. Cânt eu cyhoeddi yn yr Atodiad hwn yn y fformat a'r iaith wreiddiol.

MYNEGAI

Rhif y paragraff yn y Ddogfen Fframwaith

Dogfen

2.5

Llythyr cylch gwaith blynyddol

2.6

Cylch gorchwyl y Bwrdd

2.7

Swydd-ddisgrifiad y Cadeirydd

2.14

Swydd-ddisgrifiad y Prif Weithredwr

2.14

Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu

2.17

Cytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, ("y Prif Swyddog Cyfrifyddu") a Phrif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru, ("y Swyddog Cyfrifyddu")

4.4

Cyfarwyddydau Cyfrifon



Kathryn Bishop
Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

19 Rhagfyr 2017

LLYTHYR CYLCH GWAITH AWDURDOD CYLLID CYMRU

Yn dilyn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ar 18 Hydref, rwy'n ysgrifennu i roi manylion ynghylch cylch gwaith yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod cynllunio cyntaf rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Rwy'n disgwyl i'r Awdurdod fynegi sut y bydd yn cyflawni'r amcanion hyn drwy ei gynllun corfforaethol, y dylid ei gynhyrchu cyn mis Ebrill 2018.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gyfrifol am gasglu tua £1bn o refeniw trethi datganoledig, a fydd yn cyfrannu at ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly rwy'n rhagweld y bydd gan yr Awdurdod ran hanfodol i'w chwarae yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol.

Ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gasglu trethi datganoledig, hoffwn i'r Awdurdod ystyried tair o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yr wyf wedi'u gosod yn eu trefn isod.

Blaenoriaeth un: casglu trethi datganoledig - galluogi pobl i dalu'r swm cywir o drethi ar yr adeg gywir

Bydd y mwyafrif llethol, gyda chymorth priodol, yn talu trethi dyledus yn wirfoddol ac yn brydlon. Fodd bynnag, gall refeniw trethi gael ei golli drwy fethiant damweiniol i dalu, camddechongli trethi sy'n codi yn sgil trafodiadau cymhleth, a diffyg gofal yn ystod trafodiadau.

Lleihau'r risg i hyn ddigwydd, a hwyluso cydymffurfiaeth wirfoddol felly yw prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd helpu pobl i ddychwelyd ffurflenni a thalu'n brydlon, drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg, ynghyd â systemau a chanllawiau tryloyw ac effeithiol yn rhan bwysig o'r nod hwn. Felly rwy'n gofyn i'r Awdurdod ddod o hyd i ffyrdd o sefydlu a chynnal gwasanaethau a chymorth o safon uchel i gwsmeriaid. Ar ben hynny, dylai'r Awdurdod geisio dysgu o brofiad, ac ymateb i unrhyw adborth i wella a symleiddio prosesau a'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i gwsmeriaid.

Blaenoriaeth dau: rheoli'r system dreth ddatganoledig er mwyn helpu i atal a mynd i'r afael ag efadu trethi ac osgoi trethi

Mae profiad mewn mannau eraill wedi dangos bod lleiafrif bach o drethdalwyr o bosib yn ceisio defnyddio cynlluniau osgoi trethu neu geisio efadu talu trethi. Lle bo hyn yn digwydd,

mae'n rhoi mantais annheg iddynt dros y rhai sy'n talu eu trethi. Mae hefyd yn golygu bod llai o gyllid ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, rwy'n disgwyl i'r Awdurdod baratoi strategaeth wedi'i seilio ar risg er mwyn helpu i atal efadu ac osgoi trethi datganoledig, gan adeiladu a defnyddio proffiliau risg cwsmeriaid a mesurau cydymffurfiaeth priodol ar gyfer y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi.

Bydd gwaith partneriaeth gydag awdurdodau trethi eraill y DU a chyrff eraill gan gynnwys y Gofrestrfa Tir yn hanfodol i'r Awdurdod. Rwy'n disgwyl i'r Awdurdod ddatblygu cysylltiadau cryf gyda CThEM a Cyllid yr Alban, yn arbennig mewn meysydd polisi neu weithredol cyffredin.

Er enghraifft, mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir, bydd perthynas waith effeithiol gyda CThEM a Cyllid yr Alban yn arbennig o bwysig ar gyfer casglu cyfradd uwch y dreth ar ail gartrefi. Mae'r gyfradd uwch yn ystyried eiddo ar draws y DU, felly bydd yn hanfodol cynnal perthynas er mwyn medru gwirio cydymffurfiaeth.

Wrth bennu cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir bydd rhaid ystyried yn ofalus beth fydd effaith y polisi ar brisiau a fforddiadwyedd, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau bosib. Er mwyn dechrau ystyried effaith y gyfradd uwch ar eiddo ychwanegol yng Nghymru, bydd yn bwysig cael data i ddechrau ar ei weithrediad ar draws y wlad. Am y rheswm hwnnw, mae cynllun gwaith Llywodraeth Cymru ar bolisi treth yn cynnwys ymrwymiad y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn "dadansoddi data'r dreth trafodiadau tir o safbwynt gordal y gyfradd uwch fesul awdurdod lleol". Erbyn mis Ebrill 2019, bydd blwyddyn gyfan o ddata wedi'u casglu, felly rwy'n disgwyl i'r Awdurdod ddadansoddi'r data yn unol â'r ymrwymiad yn y cynllun gwaith.

Bydd ein treth gwarediadau tirlenwi yn cael ei chodi ar warediadau gwastraff heb eu hawdurdodi, gan gryfhau'r rhwystr ariannol rhag gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon a rhoi sylw i ffynhonnell bosibl o osgoi trethi. Felly rwy'n gofyn i'r Awdurdod gasglu a dadansoddi data i adeiladu darlun cynhwysfawr o warediadau heb eu hawdurdodi yng Nghymru, er mwyn i'r dreth sy'n ddyledus gael ei hasesu'n gywir a chymryd camau i gasglu'r dreth honno.

Blaenoriaeth tri: darparu gwasanaethau cyhoeddus - arwain gwelliannau i weinyddiaeth trethi datganoledig yng Nghymru

Wrth fodloni'r blaenoriaethau hyn, mae disgwyl i'r Awdurdod weithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru i ddatblygu a chyfrannu tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rwyf wedi sefydlu proses polisi trethi er mwyn sicrhau bod cynigion i ddefnyddio trethi fel ysgogiad yn cael eu hystyried yn drylwyr, yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn nesaf, rwy'n disgwyl i'r Awdurdod gyfrannu'n rhagweithiol i gynllun gwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru, gan ystyried goblygiadau gweithredol unrhyw gynnig trethi newydd a phrofi dealltwriaeth. Bydd y trefniadau partneriaeth yr ydym yn eu sefydlu a'r ddogfen fframwaith ar y cyd a gytunir yn ein helpu i ffurfio perthynas waith gynhyrchiol. Fodd bynnag, bydd yn bwysig craffu'n fanwl ar y trefniadau hynny wrth ddatganoli trethi er mwyn sicrhau eu bod yn hwyluso cyfraniadau clir ac effeithiol i'r broses polisi trethi.

Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn sefydliad newydd yn y byd trethi yng Nghymru, ac mae cyfle i sicrhau y bydd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau casglu trethi eraill, gan rannu arfer da a'r data i gefnogi cydymffurfiaeth effeithiol. Mae'n cynlluniau tymor byr yn cynnwys gwelliannau i weinyddiaeth trethi lleol, ac rwy'n disgwyl i'r Awdurdod gymryd rhan weithredol yn cefnogi'r gwaith hwn.

Mesurau

Yn ogystal ag ystyried y blaenoriaethau hyn, rwy'n disgwyl i chi ddatblygu cyfres gynhwysfawr o fesurau perfformiad, er mwyn i ni eu trafod fel rhan o'ch trefniadau cynllunio corfforaethol. Ymysg y meysydd lle byddai'n arbennig o bwysig cael mesurau yn eu lle, yn fy marn i, mae'r canlynol:

- i. rhagolygon a refeniw gwirioneddol y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi;
- ii. prydlondeb dychwelyd ffurflenni treth a thaliadau;
- iii. swm ac effaith y gwaith ar gydymffurfio;
- iv. safonau gwasanaeth cwsmeriaid;
- v. anghydfodau a datrys cwynion;
- vi. diogelu data;
- vii. defnyddio gwasanaethau digidol.

Cyllideb weithredol

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyllideb weithredol ganlynol ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru. Rwy'n ymwybodol, fodd bynnag, y bydd angen i'r gwir gostau gweithredol adlewyrchu'r dyletswyddau ychwanegol yn ymwneud â chasglu'r gordal ail gartrefi, a goblygiadau annibyniaeth weithredol yr Awdurdod. Rwy'n disgwyl derbyn cadarnhad gennych yn fuan o'r goblygiadau posib o ran costau.


Dyraniad cyllid	
2017-18 (o 18 Hydref)	
	£m
Refeniw	1.5
Cyfanswm y Cyllid	1.5
2018-19	
	£m
Refeniw	6
Cyfanswm y Cyllid	6

Mae'r taliad yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth ariannol ofynnol a gytunwyd i Lywodraeth Cymru ynghyd â chynllun corfforaethol a gytunwyd yn edrych ar y cyfnod cynllunio cyntaf, Ebrill 2018 - Mawrth 2019.

Monitro cynnydd

Dylem gyfarfod yn chwarterol o leiaf i ystyried cynnydd yr Awdurdod ac asesu sut mae'r bartneriaeth gyda Thrysorlys Cymru yn dod yn ei blaen. Rwy'n gobeithio cyfarfod Bwrdd llawn Awdurdod Cyllid Cymru yn flynyddol o leiaf. Yn y cyfamser, byddwn yn hapus iawn cyfarfod â chi i drafod unrhyw agwedd o'r llythyr hwn, ac fe fyddwn yn gwerthfawrogi pe byddech yn cyflwyno'ch cynllun corfforaethol drafft cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Mark Drakeford'.

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

*CC: Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru; Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru;
Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru.*

Cylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru

Gorffennaf 2018 v0.7

(Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 2 Gorffennaf 2018)

Diben y ddogfen hon

- i) Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Bwrdd Llywodraethu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), y cyfeirir ato fel y Bwrdd. Mae'n disgrifio:
- cefndir sefydlu'r Bwrdd;
 - diben, rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd;
 - strwythur a chyfansoddiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau;
 - y cymorth a ddarperir gan yr ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau;
 - Rheolau Sefydlog (RHAN 2 y ddogfen hon);
 - atodlen yn dangos y dirprwyaethau mewnol (Anecs C) sy'n nodi pa swyddogaethau mae'r Bwrdd wedi'u dirprwyo i aelodau unigol y Bwrdd, i Bwyllgorau neu i aelodau gweithredol/uwch aelodau staff.
- ii) Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:
- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;
 - y Ddogfen Fframwaith rhwng ACC a Llywodraeth Cymru sy'n sail i'r trefniadau partneriaeth sy'n datblygu rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC.
- iii) Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu ar ôl tair blynedd i sefydlu'r Bwrdd, neu cyn hynny os bydd angen. Bydd unrhyw gynigion ar gyfer newid yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ac, yn amodol ar y Bwrdd yn cytuno iddynt, byddant yn cael eu rhoi ar waith gan yr Ysgrifenyddiaeth.

RHAN 1: CYLCH GORCHWYL

Cefndir

- 1.1 Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pwerau i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae ACC yn un o ganghennau darparu gwasanaeth sifil y Llywodraeth yng Nghymru. Mae'n cael ei ariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae gan yr Awdurdod statws Adran Anweinidogol y Llywodraeth a dyma'r corff cyntaf o'i fath i'w greu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru, ac yn ddi-dduedd. Gweinidogion Cymru fydd yn gosod polisi treth ac yn rhoi cyfeiriad strategol i ACC, ond ni fyddant yn ymwneud â phenderfyniadau gweithredol yr Awdurdod.

Swyddogaethau ACC

- 1.2 Swyddogaeth gyffredinol ACC yw casglu a rheoli trethi datganoledig. Mae ganddo hefyd y swyddogaethau penodol a ganlyn:
- (a) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i Weinidogion Cymru;
 - (b) darparu gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i drethdalwyr datganoledig, eu hasiantau a phersonau eraill;
 - (c) datrys cwynion ac anghydfodau yn ymwneud â threthi datganoledig;
 - (d) hybu cydymffurfedd â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi datganoledig ac amddiffyn rhag efadu trethi ac osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig.

Bwrdd ACC - diben, rolau a chyfrifoldebau

Diben

- 1.3 Prif ddiben y Bwrdd fydd darparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a chyfeiriad i ACC i hybu ei swyddogaethau. Bydd y Bwrdd yn llywodraethu ACC yn briodol ac yn darparu'r sicrwydd priodol. Bydd yn dal y Prif Weithredwr i gyfrif am y ffordd y bydd y sefydliad yn perfformio ac yn datblygu.

Y Rôl

- 1.4 Er mwyn cyflawni ei brif ddiben, bydd angen i Fwrdd ACC gyflawni'r rolau sicrwydd strategol a ganlyn sy'n flaenoriaeth:
- a) gosod cyfeiriad strategol ACC;
 - b) darparu proses graffu a herio briodol o ran meddylfryd a phenderfyniadau ynghyd â chynghor a chefnogaeth, drwy ddarparu safbwynt annibynnol;
 - c) cynnal safonau uchel o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb yn ACC a chefnogi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu ACC i wneud hyn;
 - d) sicrhau uniondeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod rheolyddion ariannol a systemau rheoli risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy;
 - e) adlewyrchu barn rhanddeiliaid a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cyfathrebu â rhanddeiliaid.

Cyfrifoldebau

1.5 Dyma brif gyfrifoldebau aelodau Bwrdd ACC:

- a) cydweithio i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Prif Weithredwr;
- b) darparu arweinyddiaeth weladwy ac ymroddiad drwy baratoi ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd ACC, a'u mynychu;
- c) hybu'r gwaith o ddatrys materion yn amserol;
- d) bod yn onest ac yn agored am y risgiau a'r problemau a allai effeithio ar gyflawni swyddogaethau ACC;
- e) bod yn llysgenhadon ar ran ACC;
- f) cydymffurfio â Chod Ymddygiad aelodau'r Bwrdd (**Anecs A**) ac â'r safonau ymddygiad a nodir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

Aelodaeth ac Atebolrwydd

- 1.6 Mae gan y Bwrdd aelodau gweithredol ac anweithredol. Bydd yr aelodau yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniad y bydd yn rhaid i'r Bwrdd ei wneud, a byddant yn cyfrannu at unrhyw bleidlais ffurfiol a all fod yn ofynnol. Bydd Ymgynghorwyr (advisers) yn cael eu gwahodd i fynychu ac i helpu'r Bwrdd gyda'i benderfyniadau drwy ddarparu cyngor ac arweiniad, ond ni fyddant yn pleidleisio. Bydd disgwyl i staff ACC a staff roi cyflwyniadau i Fwrdd ACC pan fo angen.
- 1.7 Mae aelodau'n cael eu penodi i ACC ac yn dal swydd yn yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Yr enw arnynt fydd "Bwrdd ACC" neu "y Bwrdd".
- 1.8 Mae'r Bwrdd yn cynnwys yr aelodau a ganlyn:
- (a) aelodau anweithredol yn cynnwys cadeirydd a phump unigolyn arall a benodir gan Weinidogion Cymru;
 - (b) y Prif Weithredwr (a benodir i ddechrau gan Weinidogion Cymru a chan ACC wedi hynny);
 - (c) dau aelod arall o staff ACC a benodir gan y Prif Weithredwr;
 - (d) un aelod arall o staff ACC a benodir yn dilyn etholiad.
- 1.9 Mae aelodau'n cael eu penodi i'r Bwrdd fel unigolion ac nid ydynt yn dal swydd fel cynrychiolwyr unrhyw grŵp personol neu broffesiynol nac unrhyw gorff proffesiynol neu gorfforaethol.
- 1.10 Bydd aelod o Drysorlys Cymru yn cael ei wahodd i holl gyfarfodydd y Bwrdd fel Ymgynghorydd, a bydd ganddo'r gallu i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Bwrdd. Mae hyn yn rhan bwysig o'r bartneriaeth rhwng Trysorlys Cymru ac ACC, a bydd aelod y Bwrdd ar ran Trysorlys Cymru yn gweithredu fel un o brif ymgynghorwyr y Bwrdd.
- 1.11 Mae aelodau ac Ymgynghorwyr y Bwrdd yn cael eu dangos ar wahân yn atodiad 1.

Atebolrwydd

- 1.12 Mae **Anecs B** i'r Cylch Gorchwyl hwn yn dangos safle ACC mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn esbonio trefniadau atebolrwydd ac adrodd y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Pwyllgorau Gweithredol.

Strwythur Pwyllgorau ACC

- 1.13 Mae gan y Bwrdd ddau bwyllgor sefydlog: y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Bydd y ddau yn cael eu cadeirio gan aelod anweithredol.

Ysgrifenyddiaeth Bwrdd ACC

- 1.14 Ysgrifenyddiaeth Bwrdd ACC (yr Ysgrifenyddiaeth) fydd yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddiaeth. Bydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n brydlon i aelodau'r Bwrdd a'r rhai sy'n mynychu, gan gynnwys cyhoeddi papurau'r Bwrdd ar ffurf electronig o leiaf bum diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd.
- 1.15 Fel isafswm, bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn hwyluso ac yn darparu'r canlynol:
- rhagolwg gan fwrdd ACC, a fydd yn pennu eitemau i'w trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol;
 - cofnodion cyfarfodydd;
 - cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Bwrdd;
 - cyngor ar Reolau Sefydlog y cytunwyd arnynt.
- 1.16 Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyfleu'r camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd y Bwrdd i staff ACC yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Aelodau

Enw	Swydd
Kathryn Bishop	Cadeirydd ACC
Jocelyn Davies	Aelod Anweithredol
Dyfed Edwards	Aelod Anweithredol
David Jones	Aelod Anweithredol
Lakshmi Narain	Aelod Anweithredol
Martin Warren	Aelod Anweithredol
Dyfed Alsop	Prif Weithredwr
Sean Bradley	Prif Swyddog Polisi a Chyfreithiol Aelod Gweithredol
Rebecca Godfrey	Prif Swyddog Strategaeth Aelod Gweithredol
(l'w ethol - 2018)	Aelod gweithredol etholedig

Ymgynghorwyr “Advisers”

Swydd
Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru
Prif Swyddog Cyllid ACC
Pennaeth Gweithrediadau ACC
Pennaeth Adnoddau Dynol ACC
Pennaeth Polisi ACC
Pennaeth Staff
Pennaeth Cyfathrebu

RHAN 2: RHEOLAU SEFYDLOG

Cyflwyniad

- 2.1 Gwneir y Rheolau Sefydlog hyn dan adran 10 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ac, yn unol â'r Ddeddf hon, mae'n rhaid i ACC lunio rheolau i reoleiddio ei drefn ei hun (gan gynnwys cworwm) a threfn unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.

Cyffredinol

- 2.2 Ni cheir gwneud, darllen, cymhwyso nac atal unrhyw Reol Sefydlog mewn ffordd sy'n mynd yn groes i unrhyw reol gyfreithiol, darpariaeth ddeddfwriaethol neu delerau'r Ddogfen Fframwaith.
- 2.3 Mae Rheolau Sefydlog yn cael eu llunio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan fwyafrif o aelodau'r Bwrdd a gall y rhain eu newid, eu hatal neu eu dirymu. Byddant yn aros mewn grym oni chânt eu newid, eu hatal neu eu dirymu a nes y cânt eu newid, eu hatal neu eu dirymu.
- 2.4 Gellir ychwanegu at y Rheolau Sefydlog a gellir eu haddasu os teimlir bod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithlon, ar gynnig y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a/neu unrhyw aelod(au) o'r Bwrdd, gyda chytundeb mwyafrif aelodau'r Bwrdd.
- 2.5 Pan nad yw Rheolau Sefydlog yn gwneud darpariaeth benodol, bydd gan y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, ddisgresiwn i benderfynu ar unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r drefn ar gyfer cynnal y Bwrdd a thrafodion y Bwrdd.

Aelodaeth y Bwrdd

- 2.6 Mae holl aelodau'r Bwrdd yn rhwym wrth ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad (Anecs A) a Rheol Sefydlog 2.7 yng nghyswllt cofrestru a datgan buddiannau.
- 2.7 Rhaid i aelodau'r Bwrdd gofrestru eu buddiannau o fewn mis i ddyddiad eu penodiad i'r Bwrdd, a rhaid gwneud hynny mewn cofrestr sy'n cael ei chadw gan yr Ysgrifenyddiaeth at y diben hwnnw. Bydd y gofrestr hon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.
- 2.8 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud datganiadau o fuddiant hefyd i'w cael yn Anecs A. Os bydd anghydfod yn codi ynghylch a oes gwrthdaro rhwng buddiannau'n codi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Bwrdd, bydd y weithdrefn a ganlyn yn berthnasol:
- a) os bydd gwrthdaro posibl yn codi, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu a oes gwrthdaro'n bodoli (neu Ddirprwy Gadeirydd/dirprwy enwebedig os yw'r gwrthdaro'n ymwneud â'r Cadeirydd). Os oes gwrthdaro'n bodoli, ni fydd yr aelod Bwrdd dan sylw'n cael bod yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau a wneir sy'n ymwneud â'r rhan honno o'r cyfarfod y mae'r gwrthdaro yn effeithio arni ac efallai y gofynnir i'r aelod adael y cyfarfod;

- b) os bydd y gwrthdaro posibl yn codi y tu allan i gyfarfod, bydd Cadeirydd y cyfarfod (neu'r Dirprwy Gadeirydd/dirprwy enwebedig os yw'r gwrthdaro'n ymwneud â'r Cadeirydd) yn penderfynu a oes gwrthdaro'n bodoli. Os oes gwrthdaro'n bodoli, ni fydd yr aelod Bwrdd dan sylw'n cael bod yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau'n ymwneud â'r busnes y mae'r gwrthdaro yn effeithio arno, boed hynny mewn cyfathrebiad electronig diogel neu drwy unrhyw ddull arall, ac efallai y gofynnir i'r aelod adael y cyfarfod;
 - c) cyn dod i gasgliad yn y naill neu'r llall o'r amgylchiadau yn (a) neu (b) uchod, caiff y Cadeirydd (neu'r Dirprwy Gadeirydd/dirprwy enwebedig os yw'r gwrthdaro'n ymwneud â'r Cadeirydd) ymgynghori ag aelodau eraill y Bwrdd yn ôl yr angen;
 - d) bydd cofnod o faes y gwrthdaro posibl a'r camau a gymerwyd dan (a) neu (b) uchod yn cael ei gadw gan yr Ysgrifenyddiaeth.
- 2.9 Bydd yn rhaid i holl aelodau anweithredol y Bwrdd gyfrannu at adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol a fydd yn cael ei baratoi gan y Cadeirydd.
- 2.10 Bydd y Bwrdd yn cytuno ar y trefniadau cyn cynnal pleidlais gudd ymhlith staff ACC at ddiben penodi aelod o staff yn aelod gweithredol etholedig. Rhaid i aelodau anweithredol benodi'r sawl sy'n ennill y bleidlais gudd a phenderfynu ar ei delerau penodi.
- Y Cadeirydd**
- 2.11 Y Cadeirydd fydd yn rheoli'r trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Bydd yn sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn cael cyfle cyfartal i fynegi'u barn.
- 2.12 Y Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, y Dirprwy Gadeirydd neu, os nad oes Dirprwy Gadeirydd wedi'i benodi'n ffurfiol, ei ddirprwy enwebedig, fydd yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn unol â'r Rheolau Sefydlog hyn. Caiff unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sydd wedi'u rhoi i'r Cadeirydd mewn perthynas â chynnal cyfarfod o'r Bwrdd eu harfer yn y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd neu'r dirprwy enwebedig.
- 2.13 Os na fydd y Cadeirydd yn gallu mynychu cyfarfod, a dim dirprwy wedi'i benodi neu ei enwebu neu fod unrhyw ddirprwy sydd wedi'i benodi neu wedi ei enwebu hefyd yn methu â bod yn bresennol, bydd dirprwy dros dro yn cael ei ddewis gan yr aelodau o'r Bwrdd sy'n bresennol. Caiff unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sydd wedi'u rhoi i'r Cadeirydd mewn perthynas â chynnal cyfarfod o'r Bwrdd eu harfer gan y dirprwy dros dro yn y cyfarfod.
- 2.14 Os bydd y cadeirydd o'r farn bod unrhyw unigolyn sy'n bresennol mewn cyfarfod yn analluog, yn ymddwyn yn amhriodol neu yn peidio â rhoi ystyriaeth ddyladwy i aelodau eraill y Bwrdd neu i unigolion eraill sy'n bresennol, efallai y bydd y Cadeirydd yn mynnu bod yr unigolyn hwnnw'n gadael y cyfarfod.
- 2.15 Bydd y Cadeirydd yn paratoi sylwebaeth ar y Bwrdd, ei aelodaeth a'i waith i'w chyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol ACC.

- 2.16 Fel y nodir yn ei delerau penodi ac fel rhan o'r broses o sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i fod yn effeithiol, bydd y Cadeirydd yn cynnal asesiad blynyddol o berfformiad. Bydd hyn yn cynnwys adolygu perfformiad pob aelod anweithredol a'r Prif Weithredwr, a thrafod asesiad perfformiad aelodau gweithredol eraill (gan gynnwys yr aelod gweithredol etholedig) â'r Prif Weithredwr.

Cyfarfodydd Arferol

- 2.17 Fel arfer, bydd y Bwrdd yn cwrdd ar y drydedd wythnos ymhob mis o leiaf chwe gwaith ymhob blwyddyn ariannol. Ond, efallai y bydd yn rhaid cynnull y Bwrdd ar adegau eraill er mwyn delio â materion neu benderfyniadau penodol. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr aelodau yn derbyn papurau i'w hystyried ganddynt 'y tu allan i'r pwyllgor'.
- 2.18 Bydd y Bwrdd yn cwrdd ar ddyddiadau ac ar amseroedd y mae'r Bwrdd yn penderfynu arnynt ac sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad yn galw'r cyfarfod.
- 2.19 Caiff y Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, ddirprwy sydd wedi'i benodi neu ei ethol, orchymyn i gyfarfod neu gyfarfodydd eraill gael eu cynnull.
- 2.20 Ni ddylai mwy na thri mis fynd heibio rhwng cyfarfodydd arferol y Bwrdd.
- 2.21 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd fydd pum aelod o'r Bwrdd. Ni fydd gan gyfarfod o Fwrdd ACC gworwm onid yw mwyafrif y rhai sy'n bresennol yn aelodau anweithredol. Os na fydd cworwm, dylai'r Cadeirydd atal y cyfarfod nes y bydd cworwm yn bresennol. Ond, os na cheir cworwm o fewn 20 munud, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio. Os bydd yn rhesymol ac yn briodol gwneud hynny, caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyn yr uchafswm cyfnod hwnnw os yw'n glir na fydd gan y Bwrdd gworwm o fewn y cyfnod hwnnw.
- 2.22 Dylid cyflwyno ymddiheuriadau am absenoldeb i'r Ysgrifenyddiaeth a byddant yn cael eu nodi.
- 2.23 Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff aelod o'r Bwrdd ar ddechrau cyfarfod o'r Bwrdd godi mater nad yw ar yr agenda. Dim ond os bydd mwyafrif aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol yn cytuno i ychwanegu'r mater hwnnw at yr agenda fel eitem barhaol ar yr agenda neu o dan "*busnes cymwys arall*" y ceir trafod y mater neu wneud penderfyniad yn ei gylch.
- 2.24 Os nad yw'r busnes sydd i'w drafod wedi cael ei gwblhau o fewn y cyfnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd:
- a) caiff y rhai sy'n bresennol benderfynu parhau â'r cyfarfod er mwyn delio â'r busnes; neu
 - b) caiff y Bwrdd ohirio unrhyw gyfarfod i ddyddiad, amser a lleoliad arall os bydd mwyafrif yr aelodau o'r Bwrdd sy'n bresennol yn cytuno; neu
 - c) caiff unrhyw fusnes na chafodd ei gwblhau ddod yn rhan o'r agenda ar gyfer cyfarfod dilynol y Bwrdd.

- 2.25 Rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud gan y Bwrdd onid yw wedi awdurdodi aelod unigol o'r Bwrdd, Pwyllgor, y Prif Weithredwr neu unrhyw aelod arall o staff ACC i arfer swyddogaeth neu ddelio â mater penodol (gweler yr Atodlen Dirprwyaethau Mewnol yn Anecs C). Wrth wneud hyn, y Bwrdd sy'n dal yn gyfrifol am arfer y swyddogaeth.
- 2.26 Fel arfer, bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud â chonsensws y rhai sy'n bresennol yng nghyfarydodydd Bwrdd, gan gynnwys y rheini sy'n bresennol drwy rith-ddulliau. Oni ellir cael consensws ar fater penodol gan aelodau'r Bwrdd, caiff y Cadeirydd neu aelod arall o'r Bwrdd ofyn i bleidlais gael ei chymryd. Penderfynir ar unrhyw fater y pleidleisir arno drwy fwyafrif syml o aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol. Os bydd y bleidlais yn gyfartal, mae gan y Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, ddirprwy (gweler Rheol Sefydlog 2.12 a 2.13), ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Dim ond aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol mewn cyfarfod gaiff bleidleisio ac ni chaniateir pleidleisio drwy ddirprwy. Bydd aelodau'r Bwrdd sy'n ymadael yn gynnwys yn cael eu trin fel aelodau nad ydynt yn bresennol at ddiben unrhyw benderfyniad a wneir ar ôl iddynt ymadael.
- 2.27 Mae holl aelodau'r Bwrdd a staff ACC yn rhwym wrth benderfyniadau'r Bwrdd.
- 2.28 Mae gan aelod o'r Bwrdd hawl i'w anghytundeb â phenderfyniad y Bwrdd gael ei gofnodi gyhyd â'i fod wedi mynychu'r holl drafodaeth a'r penderfyniad, ac wedi gofyn i'w anghytundeb gael ei gofnodi'n syth ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud yn derfynol. Ni fydd cofnodi unrhyw anghytundeb o'r fath yn effeithio ar Reol Sefydlog 2.27.
- 2.29 Os bydd aelod anweithredol yn peidio â mynychu cyfarfodydd y Bwrdd am dri mis yn olynol heb esgus rhesymol neu'n methu tri chyfarfod olynol o'r Bwrdd, bydd y Cadeirydd yn trafod amgylchiadau'r absenoldeb â'r aelod ac, os bydd angen, trafod a yw'n addas i barhau yn aelod o'r Bwrdd. Yn y cyfryw amgylchiadau, caiff y Cadeirydd drafod â Gweinidogion Cymru y posibilrwydd o derfynu ei aelodaeth.
- 2.30 Caiff y Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, ddirprwy (gweler Rheol Sefydlog 2.12 a 2.13), ganiatáu i aelod o'r Bwrdd fynychu cyfarfod Bwrdd drwy ddulliau fel cynadleddau fideo neu sain, ond gan gofio mai bod yn bresennol yn gorfforol yw'r dewis a ffafrir bob amser bryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Pan fydd aelod o'r Bwrdd yn mynychu cyfarfod yn y ffordd hon, bydd yn cael ei ystyried yn bresennol.
- 2.31 Caiff y Bwrdd neu ei Bwyllgorau wahodd unigolion, cyrff neu sefydliadau i fynychu ei gyfarfodydd neu rannau o'i gyfarfodydd, i ddarparu gwybodaeth a/neu i roi cyflwyniadau iddo am faterion penodol. Caiff y Bwrdd neu ei Bwyllgorau hefyd wahodd unigolion, cyrff neu sefydliadau i ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig i'w hystyried cyn cyfarfodydd y Bwrdd neu ei Bwyllgorau.
- 2.32 Caiff y Bwrdd hefyd sefydlu grwpiau ad-hoc, yn ôl yr angen. Bydd argymhellion a/neu adroddiadau gan grwpiau ad-hoc yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd neu at y Pwyllgor priodol i'w hystyried neu i benderfynu yn eu cylch.

Agenda

- 2.33 Gofynnir am farn a sylwadau gan yr aelodau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ynghylch eitemau posibl ar gyfer cyfarfodydd dilynol. Bydd agenda derfynol cyfarfodydd arferol y Bwrdd yn cael ei pharatoi gan yr Ysgrifenyddiaeth a'i dosbarthu i'r Cadeirydd i'w chymeradwyo neu i gael sylwadau arni fel arfer o leiaf bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd fersiwn derfynol yr agenda yn cael ei dosbarthu yn unol â rheol sefydlog 2.59.
- 2.34 Caiff y Cadeirydd amrywio trefn y materion i'w trafod gyda chytundeb mwyafrif aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol yn y cyfarfod, ond rhaid cynnwys datganiadau am wrthdaro rhwng buddiannau.
- 2.35 Bydd cadeiryddion y Pwyllgorau yn rhoi adroddiadau llafar rheolaidd i'r Bwrdd am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor yn unol â'u Cylch Gorchwyl y maent wedi cytuno arno. Bydd agendâu a chofnodion holl gyfarfodydd y Pwyllgorau hefyd yn cael eu dosbarthu i'r Bwrdd.
- 2.36 Caiff unrhyw aelod o'r Bwrdd gynnig eitem ar gyfer Agenda Cyfarfod Arferol drwy gysylltu â'r Cadeirydd, gan anfon copi o'r cynnig at yr Ysgrifenyddiaeth, o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

Cyfarfodydd arbennig a phenderfyniadau a wneir y tu allan i gyfarfodydd

- 2.37 Caiff y Cadeirydd, aelod anweithredol o'r Bwrdd neu'r Prif Weithredwr ar unrhyw adeg gynnig cyfarfod arbennig o'r Bwrdd i ddelio â busnes brys. Bydd cyfarfod arbennig o'r Bwrdd hefyd yn cael ei alw gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ar ôl derbyn cais ffurfiol sy'n nodi'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod ac sy'n cael ei gefnogi gan o leiaf ddau aelod anweithredol o'r Bwrdd. Bydd ceisiadau ffurfiol dan y Rheol Sefydlog hon yn cael eu hanfon at yr Ysgrifenyddiaeth.
- 2.38 Pan dderbynnir cais ffurfiol yn unol â Rheol Sefydlog 2.37, bydd y cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y cais.
- 2.39 Bydd penderfyniadau'r Bwrdd a'r busnes sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd arbennig yn ddarostyngedig i ofynion Rheol Sefydlog 2.21 (cworwm) yn yr un ffordd â chyfarfodydd arferol y Bwrdd.
- 2.40 Yn ychwanegol at gamau o'r fath mewn cyfarfodydd arbennig o'r Bwrdd, mae modd trafod busnes brys y Bwrdd a/neu'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd, drwy gynadleddau fideo neu sain neu drwy ddulliau cyfathrebu electronig diogel, ond bob amser yn ddarostyngedig i ofynion Rheol Sefydlog 2.21 (cworwm).
- 2.41 Pan fydd Rheol Sefydlog 2.37 yn cael ei defnyddio, bydd holl aelodau'r Bwrdd a'r Ysgrifenyddiaeth yn cael gwybod am yr amgylchiadau ar y cyfle cyntaf posibl. Rhoddir gwybod am y camau hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Cofnodion

- 2.42 Bydd cofnodion yn cael eu cadw o bob cyfarfod Bwrdd. Fel isafswm, byddant yn cofnodi pa rai o aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol, y staff ac unrhyw unigolion eraill sy'n bresennol, ymddiheuriadau a roddwyd a'u derbyn am beidio â bod yn bresennol,

materion a ystyriwyd, y penderfyniadau a gafodd eu gwneud a'u pasio a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

- 2.43 Ar ôl pob cyfarfod Bwrdd, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi crynodeb drafft o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau a wnaed ac yn eu cylchredeg i'r aelodau o fewn dau ddiwrnod gwaith. Bydd cofnodion drafft yn cael eu hanfon at holl aelodau'r Bwrdd o fewn 15 diwrnod gwaith fel arfer i ddyddiad y cyfarfod. Bydd y cofnodion drafft yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd i'w cymeradwyo.
- 2.44 Os bydd y rheini sy'n bresennol mewn cyfarfod Bwrdd neu mewn unrhyw rai o'i bwyllgorau yn penderfynu bod unrhyw ran o'r busnes a gynhaliwyd yn gyfrinachol, bydd y rhan honno'n cael ei chofnodi ar wahân ac ni fydd yn cael ei chyhoeddi dan Reol Sefydlog 2.45 isod.
- 2.45 Ar ôl eu cymeradwyo, bydd cofnodion y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan ACC ar eu ffurf derfynol. Bydd y cofnodion ar gael ar wefan ACC am ddwy flynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod. Ar ôl hynny bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn eu tynnu oddi yno ac yn eu gosod mewn archif electronig. Lle bo'n briodol, bydd y cofnodion cyhoeddedig yn dangos lle mae busnes cyfrinachol wedi'i olygu.
- 2.46 Caiff penderfyniadau ar faterion sy'n bwysig yn syth i staff gweithredol eu dosbarthu iddynt, er na fydd cofnodion y cyfarfod sy'n cofnodi'r penderfyniad wedi'u cymeradwyo na'u cyhoeddi, ond gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd yn unig, neu, lle bo hyn yn berthnasol, y dirprwy enwebedig neu dros dro a oedd yn cadeirio'r cyfarfod.

Penderfyniadau a neilltuir a dirprwyaethau mewnol

- 2.47 Mae siart yn dangos y dirprwyaethau mewnol ar gael yn **Anecs C**. Mae'r penderfyniadau canlynol yn cael eu neilltuo i'r Bwrdd:
- (a) Siarter safonau a gwerthoedd (Siarter Trethdalwyr);
 - (b) cyfeiriad strategol, cymeradwyo cyllidebau a chynlluniau busnes a chorfforaethol;
 - (c) Rheolau Sefydlog, gan gynnwys dirprwyaethau mewnol;
 - (d) sefydlu cylch gorchwyl a threfniadau adrodd ar gyfer yr holl Bwyllgorau sy'n gweithredu ar ran y Bwrdd;
 - (e) trefniadau adrodd ar risgiau, archwilio ac ariannol corfforaethol;
 - (f) cymeradwyo'r cyfrifon blyneddol;
 - (g) trefniadau adrodd o ran rheoli perfformiad corfforaethol;
 - (h) dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i unrhyw berson a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a thrwy unrhyw gyfarwyddiadau a roddir wedyn;
 - (i) penderfyniadau eraill sydd wedi'u neilltuo i'r Bwrdd dan ddirprwyaethau mewnol: er enghraifft, cymeradwyo penderfyniadau polisi gweithredol nad ydynt yn dod o dan ddirprwyaethau i'r Prif Weithredwr; setliadau a gostyngiadau treth uwchlaw terfynau dirprwyedig; cymeradwyo prosiectau risg ganolog ac uchel.

Gohebiaeth

- 2.48 Mae'r holl ohebiaeth a ddaw i'r Bwrdd (corff corfforaethol) fel arfer at sylw'r Bwrdd cyfan, pa un a yw wedi'i chyfeirio at aelod unigol o'r Bwrdd neu at yr Ysgrifenyddiaeth.
- 2.49 Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn derbyn ac yn cofnodi'r holl ohebiaeth a ddaw i'r Bwrdd ac oddi wrtho. Bydd yn dilyn y broses berthnasol wrth ddelio â'r ohebiaeth. Bydd copi o unrhyw ohebiaeth o'r fath a dderbynnir neu a anfonir gan aelod unigol o'r Bwrdd mewn perthynas ag ACC yn cael ei roi i'r Ysgrifenyddiaeth, ar ffurf electronig fel arfer, at y diben hwn.

Camau Gweithredu Brys

- 2.50 Mae gan y Cadeirydd neu ddirprwy (gweler Rheolau Sefydlog 2.12 a 2.13) yr awdurdod i fynnu neu i ganiatáu i'r Prif Weithredwr neu uwch aelod arall o staff gymryd camau brys neu ymateb i ohebiaeth y Bwrdd rhwng cyfarfodydd y Bwrdd os bydd yr oedi mewn arfer swyddogaeth neu ymateb i ohebiaeth yn debygol o fod yn niweidiol iawn i fuddiannau ACC neu o fod yn groes i ddeddfwriaeth.
- 2.51 Os yw'r mater y mae'r camau brys yn berthnasol iddo yn un na cheir ei ddirprwyo i unigolyn, dylid cael cytundeb mwyafrif aelodau anweithredol y Bwrdd drwy ddull cyfathrebu electronig diogel i gymryd y cyfryw gamau.
- 2.52 Ar bob achlysur pan fydd Rheol Sefydlog 2.50 yn cael ei defnyddio, bydd holl aelodau'r Bwrdd a'r Ysgrifenyddiaeth yn cael gwybod am yr amgylchiadau ar y cyfle cyntaf posibl. Rhoddir gwybod am y camau hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Llofnodi Dogfennau

- 2.53 Pan fydd yn rhaid gweithredu dogfen ar ran ACC, ar ôl iddi gael ei chymeradwyo'n briodol, rhaid iddi gael ei llofnodi:
- (a) gan y Cadeirydd; neu
 - (b) gan unrhyw berson sy'n gweithredu o fewn ei gylch gwaith dan y Dirprwyaethau Mewnol yn **Anecs C**.

Cyfrinachedd

- 2.54 Mae gan holl aelodau'r Bwrdd, yr Ysgrifenyddiaeth ac unrhyw berson arall sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Bwrdd ddyletswydd i beidio â gwneud y canlynol:
- (a) trafod eitemau busnes y cytunwyd eu bod yn gyfrinachol dan Reol Sefydlog 2.33 ag unrhyw berson nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, oni bai fod y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr wedi rhoi caniatâd i wneud hynny; neu,
 - (b) rhoi sylw ar unrhyw fater mewn unrhyw ffordd sy'n tanseilio'r egwyddor o gydgyfrifoldeb am benderfyniadau a wneir yn y cyfryw gyfarfodydd.
- 2.55 Mae'r ddyletswydd a nodir yn Rheol Sefydlog 2.54 yn ychwanegol at y ddyletswydd statudol o dan adran 17 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 sydd ar bob aelod presennol o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a chyn aelodau ohonynt, aelodau staff

presennol a chyn-aelodau ACC ac unigolion sydd wedi neu sydd yn arfer swyddogaethau ar ran ACC, i sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth warchodedig am drethdalwr.

2.56 Nid yw Rheol Sefydlog 2.54 yn lleihau effaith Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

Cadw Papurau a Dogfennau'n Ddiogel

2.57 Bydd aelodau'r Bwrdd ac ymgynghorwyr yn cael eu dal yn gyfrifol yn bersonol am gadw'n ddiogel unrhyw bapurau neu ddogfennau a all gael eu rhoi iddynt neu i'w gofal yn ystod eu dyletswyddau. Os bydd unrhyw rai o'r cyfryw ddogfennau'n cael eu colli, rhaid rhoi gwybod yn syth i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Diogelu Data, ac os bydd y rhain yn absennol, i'r Ysgrifenyddiaeth.

Dyletswydd y Bwrdd mewn perthynas â'r Swyddog Cyfrifyddu

2.58 Rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn gwbl gyfarwydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu, a'i fod yn rhoi sylw dyladwy iddynt. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn Adran 33 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ac yn llawn mewn Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

2.59 Bydd papurau ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd ACC - gan gynnwys hysbysiad yn cynnull y cyfarfod a fydd yn cynnwys dyddiad, amser a lleoliad - yn cael eu hanfon yn electronig gan yr Ysgrifenyddiaeth at aelodau'r Bwrdd a hynny fel arfer o leiaf pum diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd.

2.60 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd papurau hwyr yn cael eu hanfon neu eu cyflwyno ac yn ôl disgrisiwn cadeirydd y cyfarfod.

2.61 Rhaid i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd am gael gwybod am yr holl gyfarfodydd neu rai ohonynt, a'r agenda a'r papurau ar gyfer y cyfarfodydd hynny mewn fformat arall roi gwybod hynny i'r Ysgrifenyddiaeth.

2.62 Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnal ac yn darparu cyngor ar y Rheolau Sefydlog sydd wedi'u cytuno arnynt.

Pwyllgorau

2.63 Caiff y Bwrdd sefydlu pwyllgorau. Bydd y Bwrdd yn adolygu strwythur ei Bwyllgorau bob tair blynedd. Caiff y Bwrdd ddirprwyo i'w Bwyllgorau unrhyw rai o'i swyddogaethau yr ystyrir yn briodol ganddo. Ond, y Bwrdd sy'n dal yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau.

2.64 Wrth sefydlu Pwyllgorau, y Bwrdd fydd yn penderfynu ar y cadeirydd ac yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor, a fydd yn cynnwys cworwm y Pwyllgor, pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd a'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r Bwrdd am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor.

- 2.65 Caiff Bwrdd ACC benodi personau nad ydynt yn aelodau staff i fynychu a chyfrannu at waith y pwyllgorau, er na fydd ganddynt hawl i bleidleisio. Ond, serch hynny, mae aelodau Pwyllgor nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd yn rhwym wrth y darpariaethau yng Nghod Ymddygiad ACC.
- 2.66 Rhaid i aelodaeth Pwyllgor gynnwys o leiaf ddau aelod anweithredol o'r Bwrdd. Ni fydd cworwm mewn Pwyllgor os nad oes aelod anweithredol o'r Bwrdd yn bresennol.
- 2.67 Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Bwrdd, bydd Pwyllgorau'n cyfarfod ar ddyddiadau ac ar adegau ac mewn lleoliadau a bennir ganddynt hwy. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor benderfynu, mewn trafodaeth ag aelodau'r Pwyllgor, y caiff busnes brys ei gyflwyno mewn cyfarfod penodol.
- 2.68 Caiff Pwyllgor sefydlu is-bwyllgorau a phenderfynu ar ei gyfansoddiad a phenodi personau nad ydynt yn aelodau o ACC i fod yn aelodau. Ond ni fydd gan y personau hynny hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor.

Taliadau a threuliau aelodau

- 2.69 Bydd ACC yn talu i aelodau'r Bwrdd, i unrhyw bersonau eraill a benodir i unrhyw Bwyllgor a sefydlir gan y Bwrdd ac i unrhyw berson a benodir i unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir gan Bwyllgorau. Bydd y taliadau hyn yn unol â'r graddfeydd a nodir yn **Anecs A**, a hynny bob amser ar yr amod nad yw'r person hwnnw eisoes yn cael cyflog a ariennir gan y pwrs cyhoeddus neu daliad am yr amser y mae wedi'i dreulio ar fusnes ACC.
- 2.70 Bydd ACC yn ad-dalu treuliau sydd â derbynebaw priodol i aelodau'r Bwrdd neu i unrhyw aelod o Bwyllgor a sefydlir gan y Bwrdd ac i unrhyw berson a benodir i unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir gan Bwyllgorau yn unol â'r graddfeydd a nodir yn **Anecs A**.
- 2.71 Bydd manylion ffioedd aelodau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi.

Dehongli

- 2.72 Yn y Rheolau Sefydlog hyn a'u Hatodiadau, mae:

“Ysgrifenyddiaeth” yn golygu unrhyw swyddog neu swyddogion a benodir gan Brif Weithredwr ACC i weithredu yn y swydd hon;

“blwyddyn ariannol” yn golygu'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth;

“Gwefan ACC” yn golygu: : www.gov.wales/wra <<http://www.gov.wales/wra>> / www.llyw.cymru/ac <<http://www.llyw.cymru/ac>>

Anecs A - Cod Ymddygiad Aelodau'r Bwrdd

Cod Ymddygiad Cyffredinol

Dylai aelodau'r Bwrdd:

- roi blaenoriaeth i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a mynychu'n amserol. Os na fyddant yn gallu mynychu cyfarfod neu unrhyw ran ohono, dylid rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw;
- ymgyswrttu'n llawn â manylion y busnes i'w drafod cyn unrhyw gyfarfod er mwyn gallu cyfrannu'n llawn at waith y Bwrdd;
- parchu'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd, a'u trin yn gwrtais bob amser;
- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg;
- datgan yn y cyfarfod perthnasol unrhyw bryder a all fod ganddynt am wrthdaro posibl rhwng eu busnes a buddiannau preifat. Bydd unrhyw ddatganiad o'r fath yn cael ei gofnodi yn y cofnodion (gweler Rheol Sefydlog 2.8 (d)).

Yn ogystal, dylai aelodau gweithredol y Bwrdd:

- enwebu dirprwy priodol i fynychu yn eu lle os na fyddant yn gallu mynychu cyfarfod.

Taliadau a Threuliau Aelodau

Gweler Rheolau Sefydlog 2.69 - 2.71.

Taliad cydnabyddiaeth

Y Cadeirydd: £400 y diwrnod

Dirprwy Gadeirydd: £350 y diwrnod


Aelodau Anweithredol: £300 y diwrnod

Treuliau


Mae treuliau teithio a chynhaliadau yn cael eu talu yn unol â chyfraddau ACC (sy'n debyg i gyfraddau Llywodraeth Cymru)

Anecs B – Atebolrwydd a'r perthnasoedd rhwng Bwrdd ACC, pwyllgorau ACC a Gweinidogion Cymru

ACC/Trysorlys Cymru - Adroddiadau ar y Cyd, Atebolrwydd a Phartneriaethau



ACC/Trysorlys Cymru - Adroddiadau ar y Cyd, Atebolrwydd a Phartneriaethau (y prif ddogfennau)



Atodlen Dirprwyo Mewnol

Awdurdod Cyllid Cymru

Cytunwyd gan Fwrdd ACC: 21 Mawrth 2018

Awdurdod Cyllid Cymru – atodlen dirprwyo mewnol

Cyflwyniad

1. Mae'r *Atodlen Dirprwyo Mewnol* (yr Atodlen) yn cael ei chreu gan ACC dan adran 13 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (*awdurdodiad mewnol i gyflawni swyddogaethau*). Ynnddi, caiff ACC awdurdodi bod unrhyw un o'i swyddogaethau (i unrhyw raddau) yn cael eu cyflawni gan - aelod o ACC, un o bwyllgorau ACC neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, neu i Brif Weithredwr neu unrhyw aelod arall o staff ACC.
2. Dylid darllen yr atodlen ar y cyd â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, deddfwriaeth trethi datganoledig, Cylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog ACC, a Chytundeb Fframwaith Llywodraeth Cymru/ACC.
3. Mae'r atodlen yn disodli atodlen gynharach i ymdrin â'r cyfnod rhwng 18 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2018 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 18 Hydref (17-01(02)b), a diweddariad 1 a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn Ionawr 2018 (DT0C: 002).
4. Bydd yr Atodlen yn cael ei hadolygu ar ôl ei gweithredu am 12 mis.
5. Fe wnaeth y Bwrdd ddirprwyo swyddogaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru yn flaenorol, gan ddod i rym ar 25 Ionawr 2018.

Bwrdd ACC - penderfyniadau a gedwir yn ôl

6. Mae Rheolau Sefydlog ACC yn cadw meysydd penderfyniadau i Fwrdd ACC (gweler isod). Mae'r dirprwyaethau'n ymwneud â'r materion hyn, a gedwir yn ôl, wedi'u cynnwys yn yr atodlen, mewn amgylchiadau lle bydd y weithrediaeth yn cefnogi Bwrdd ACC yn ei rôl.
 - a) Siarter safonau a gwerthoedd (Siarter Trethdalwyr);
 - b) cyfeiriad strategol, cymeradwyo cyllidebau a chynlluniau busnes a chorfforaethol;
 - c) Rheolau Sefydlog;
 - d) Atodlen Dirprwyo Mewnol;
 - e) sefydlu cylch gorchwyl a threfniadau adrodd ar gyfer yr holl Bwyllgorau sy'n gweithredu ar ran y Bwrdd;
 - f) trefniadau adrodd ar risgiau, archwilio ac ariannol corfforaethol;
 - g) cyfrifon blynyddol a Datganiad Treth;

- h) trefniadau adrodd o ran rheoli perfformiad corfforaethol;
- i) dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i unrhyw berson a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a thrwy unrhyw gyfarwyddiadau a roddir wedyn;
- j) meysydd penderfyniadau eraill sydd wedi'u cadw dan ddirprwyaethau mewnol: cymeradwyo penderfyniadau polisi gweithredol nad ydynt yn dod o dan ddirprwyaethau i'r Prif Weithredwr; gostyngiadau treth uwchlaw terfynau dirprwyedig; a chymeradwyo prosiectau risg canolig ac uchel.

Prif Weithredwr ACC

7. Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo i staff ACC, ond bydd yn cadw'r atebolrwydd. Bydd y Prif Weithredwr yn paratoi Cynllun dirprwyo Ariannol i staff ACC ar wahân.

Cyfrifoldeb y Bwrdd	Cyfrifoldeb a Ddirprwyir	Dirprwyir i
1. Strategaeth, cynllunio a pherfformiad		
1.1 Gosod cyfeiriad strategol: cymeradwyo cynlluniau corfforaethol a strategol a fframwaith perfformiad cysylltiedig, gan gynnwys: blaenoriaethau ac amcanion strategol.	1.1.1 Sicrhau a chynnal adnoddau priodol, systemau rheoli a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau strategol, blaenoriaethau, amcanion a mesurau perfformiad.	Prif Weithredwr
1.2 Ystyried y perfformiad o gymharu â'r Cynllun Corfforaethol a'r fframwaith perfformiad cysylltiedig ac unrhyw gamau cywiro fel y bo angen.	1.2.1 Darparu adroddiadau prydlon a chywir i'r Bwrdd ynghylch cynnydd o ran cyflawni nodau strategol, amcanion a mesurau perfformiad.	Prif Weithredwr
	1.2.2 Hysbysu'r Bwrdd am unrhyw bryderon am berfformiad, cyllideb neu gyflawni gan roi gwybod am oblygiadau posibl i enw da neu faterion ariannol a allai effeithio ar gyflawni nodau ac amcanion strategol. Ac fel y bo angen, darparu cyngor ar unrhyw gamau cywiro i'w hystyried a'u cymeradwyo.	Prif Weithredwr
1.3 Cyflawni gofynion o ran cynllunio ac adrodd mewn perthynas â Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.	1.3.1 Sicrhau a chynnal adnoddau digonol ar gyfer: Siarter Safonau a Gwerthoedd; Adroddiad Blynnyddol, Datganiad Cyfrifon a Threth; ac ar gyfer unrhyw adroddiadau a gwybodaeth arall sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, y Cytundeb Fframwaith neu sy'n berthnasol ac yn briodol wrth gyflawni swyddogaethau statudol.	Prif Weithredwr
1.4 Bodloni gofynion Gweinidogion Cymru, trethdalwyr a'u hasiantau a phersonau eraill, yn ymwneud â gwybodaeth am drethi datganoledig a chymorth.	1.4.1 Goruchwyllo'r gwaith o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru am drethi datganoledig.	Prif Weithredwr
	1.4.2 Goruchwyllo'r gwaith o ddarparu gwybodaeth a chymorth am drethi datganoledig i drethdalwyr datganoledig, eu hasiantwyr a phersonau eraill.	Prif Weithredwr

Cyfrifoldeb y Bwrdd	Cyfrifoldeb a Ddirprwyir	Dirprwyir i
1.5 Hyrwyddo gwaith effeithiol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar drethi datganoledig.	1.5.1 Goruchwyllo dulliau effeithiol o gydweithio a chyfathrebu â Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cytundeb Fframwaith y cytunwyd arno, fel bod gwaith datblygu polisiau trethi a gweinyddu trethi yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth.	Prif Weithredwr
	1.5.2 Darparu cyngor i'r Bwrdd ar gynigion polisiau trethi Llywodraeth Cymru ac ar unrhyw gynigion polisi ehangach sy'n dod i'r amlwg ac a allai gael effaith weithredol arwyddocaol ar ACC fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus.	Prif Weithredwr
2. Dylunio Trefniadaeth ACC		
2.1 Goruchwyllo'r gwaith o ddylunio ACC yn y dyfodol.	2.1.1 Darparu cyfarwyddyd a chanllawiau ar gyfer penderfyniadau dylunio yn ACC drwy sefydlu strategaethau a chytuno ar benderfyniadau allweddol;	Prif Weithredwr
	2.1.2 Comisiynu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu dyluniadau, e.e. datblygu gwefan ACC;	Prif Weithredwr
	2.1.3 Cytuno ar feini prawf dylunio manwl a gofynion i sicrhau ansawdd cynnyrch;	Prif Weithredwr
	2.1.4 Derbyn a chytuno ar gynnyrch yn unol â'r dyluniad/ansawdd y cytunwyd arnynt.	Prif Weithredwr
	2.1.5 Darparu cyngor i'r Bwrdd i'w galluogi i siapio'r cyfeiriad strategol.	Prif Weithredwr

Cyfrifoldeb y Bwrdd	Cyfrifoldeb a Ddirprwyir	Dirprwyir i
3. Llywodraethu, craffu a herio		
3.1 Sicrhau bod llywodraethu effeithiol a chraffu yn digwydd ar bob agwedd ar fusnes ACC, a chynnal safonau uchel o gysondeb a phriodoldeb ymhob rhan o ACC; gan gefnogi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu i wneud hyn.	3.1.1 Sefydlu a chynnal rheolaethau a threfniadau llywodraethu mewnol cadarn sy'n bodloni gofynion y swyddog cyfrifyddu fel y pennir gan Weinidogion Cymru.	Prif Weithredwr
	3.1.2 Sicrhau bod y Bwrdd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw gynigion newydd, dadleuol neu ganlyniadol, yn enwedig cynigion sydd â chanlyniadau posibl i enw da ACC, a chan gynnwys rhai a fyddai fel arall yn dod o fewn y terfynau ariannol dirprwyedig.	Prif Weithredwr
	3.1.3 Cymryd camau i ddiogelu asedau, buddiannau ac enw da ACC, a rhoi gwybod i'r Bwrdd am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar y rhain.	Prif Weithredwr
	3.1.4 Sicrhau bod trefniadau ar gael i drin gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr mewn modd priodol, a bod yr holl ddata'n cael eu prosesu yn unol â gofynion diogelu data.	Prif Weithredwr
	3.1.5 Sicrhau bod y Bwrdd a swyddogion ACC yn effro i les y cyhoedd a bod goblygiadau cyfreithiol unrhyw gamau arfaethedig yn cael eu hystyried yn amserol gan roi gwybod i'r Bwrdd am unrhyw gyngor o'r fath.	Prif Weithredwr

Cyfrifoldeb y Bwrdd	Cyfrifoldeb a Ddirprwyir	Dirprwyir i
4. Cyllid ac Adnoddau		
4.1 Hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus.	4.1.1 Sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn.	Prif Weithredwr
4.2 Cymeradwyo refeniw blynyddol a chyllidebau cyfalaf.	4.2.1 Cael cymeradwyaeth y Bwrdd i ddyraniadau cyllidebol yr holl categorïau costau ar gyfer cyflawni'r busnes.	Prif Weithredwr
4.3 Ystyried a chymeradwyo addasiadau i gyllidebau sydd y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr.	4.3.1 Trosglwyddo darpariaeth gyllidebol rhwng categorïau costau cymeradwy hyd at £100k	Prif Weithredwr
4.4 Cymeradwyo prosiectau buddsoddi cyfalaf – prosiectau risg uchel/canolig	4.4.1 Cymeradwyo achosion busnes hyd at £500k. Adrodd i'r Bwrdd ynghylch cynnydd prosiectau.	Prif Weithredwr
5. Risg		
